



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi

Adroddiad ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddir o dan
adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfeirnod 64



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Cynnwys

1	Cyd-destun	1
2	Sail yr ymchwiliad	2
3	Yr ymchwiliad	3
4	Y dystiolaeth Ystyriaeth 1: Defnyddio'r Gymraeg mewn AchosionCyfreithiol	5
5	Casgliadau Casgliad 1: Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol	7
6	Argymhellion Argymhelliad 1 Argymhelliad 2	11
7	Mynegai i'r atodiadau	12

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn unol ag adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn sgil trosglwyddo swyddogaethau perthnasol o dan y Ddeddf i'r Comisiynydd drwy gyfres o offerynnau statudol.

Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i'r posibilrwydd o fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith o dan adran 17 y Ddeddf:

17. – (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd¹, boed yn sgil cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.

(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ac y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Adroddiadau ar ymchwiliadau

Llunnir adroddiad o dan adran 19 y Ddeddf ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad:

19. – (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol² ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgil cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd.

(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i'r adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf adroddiad a wneir o dan is adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.

(3) Lle bydd y Bwrdd ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

¹ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth, 2012 a throsglwyddwyd y pŵer i ymchwilio i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill, 2012. Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn y rhagair hwn yn gyfystyr â chyfeiriad at y Comisiynydd.

² Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, anfonir adroddiadau o dan adran 19 y Ddeddf at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

Os yw'r Comisiynydd o'r farn, yn dilyn llunio adroddiad, bod corff cyhoeddus wedi methu â gweithredu camau a argymhellwyd ganddi, caiff gyfeirio'r mater at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg:

20. – (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred y bo'n briodol.

(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan isadran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.

1 Cyd-destun

- 1.1 Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) gynllun iaith Gymraeg a baratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Cafodd y cynllun iaith ei gymeradwyo ar 31 Ionawr 2019.
- 1.2 Mae'r cynllun iaith yn datgan fod GLITEF wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd GLITEF yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- 1.3 Prif amcan yr adroddiad hwn yw dod i gasgliadau, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, ynglŷn â chydymffurfiaeth GLITEF â chymalau penodol o'i gynllun iaith. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau ynghylch perfformiad cyffredinol GLITEF wrth gyflawni ei gynllun iaith.
- 1.4 Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn breifat gan swyddogion rheoleiddio'r Comisiynydd. Dymunaf ddiolch i GLITEF am ei gydweithrediad yn ystod yr ymchwiliad.

2 Sail yr ymchwiliad

- 2.1 Agorwyd yr ymchwiliad hwn ar fenter y Comisiynydd. Derbyniwyd tystiolaeth gan gorff a oedd yn codi amheuaeth o gydymffurfiaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EF gyda'i gynllun iaith. Fe'm hysbyswyd bod aelodau o weithlu'r Cyngor wedi eu galw'n ddiweddar gan Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EF i roi tystiolaeth mewn Tribiwnlys Cyflogaeth.
- 2.2 O ganlyniad i drefniadau dros dro'n sgil cyfyngiadau COVID-19, roedd rhaid i swyddogion y Cyngor fod yn bresennol yn y llys yng Nghaernarfon i ddarparu eu tystiolaeth er mwyn hwyluso trefniadau cyfieithu ar y pryd. Roedd hyn yn drefniant gwahanol i'r trefniant ar gyfer partion yn yr achos oedd yn dymuno defnyddio'r Saesneg (neu nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg). Roedd modd i'r unigolion hynny gyfrannu o bell yn rhithiol.
- 2.3 Ar 18 Ionawr 2022, fe wnaeth y Comisiynydd gysylltu gyda'r Gwasanaeth Llysoedd, a'i safbwynt oedd nad oedd y cyfleuster cyfarfod rhithiol CVP (Cloud Video Platform) a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn hwyluso cyfieithu ar y pryd. Roedd gofyn naill ai i'r sawl y mae ei dystiolaeth yn cael ei gyfieithu, neu'r sawl sy'n derbyn y cyfieithiad (un neu'r llall) fod yn bresennol yn y llys gyda'r cyfieithydd a'r barnwr.
- 2.4 Mae swyddogion y Comisiynydd wedi cysylltu gyda GLITEM ac wedi sefydlu beth yw eu dehongliad nhw o'r ffordd y mae'r cynllun iaith yn bodloni Cymal 22 Rhan III o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993³, ac maen nhw'n nodi eu bod "*yn credu bod gofynion y cynllun iaith wedi eu bodloni*".
- 2.5 Fodd bynnag, credir bod modd diffinio Cymal 22 Rhan III o Ddeddf 1993 yn ehangach nag ystyried a ydy siaradwyr Cymraeg wedi gallu defnyddio'r Gymraeg mewn achos yn unig.
- 2.6 Pwrpas cynnal yr ymchwiliad hwn felly yw dod i gasgliad pendant ynglŷn â hyd a lled Cymal 22 Rhan III o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 2.7 Mae cymal 22 wedi'i gyfundrefnu yn gyflawn yn y Cynllun Iaith (adran 5.24). Nid camgymeriad oedd cynnwys cymal 22 yn ei gyfanrwydd gan ei bod hi'n hanfodol fod cwynion yn ymwneud â chymal 22 yn gallu cael eu gweithredu o dan y Cynllun Iaith. Nid oes proses archwilio neu broses gwynion arall o dan Ddeddf 1993, felly mae hyn yn cryfhau'r safbwynt mai hon yw'r drefn briodol i'w dilyn.

³ [c-deddf-yr-iaith-gymraeg-1993.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

3 Yr ymchwiliad

- 3.1 Penderfynais arfer fy mhwerau o dan adran 17 y Ddeddf er mwyn cynnal ymchwiliad i ganfod a fu methiant gan GLITEF i gyflawni'r cynllun iaith. Hysbyswyd GLITEF o hyn ar 20 Gorffennaf 2022.
- 3.2 Ar 20 Gorffennaf 2022, anfonwyd llythyr at GLITEF yn egluro pwnc a threfn yr ymchwiliad ac yn gofyn cwestiynau ar gyfer cywain gwybodaeth. Eglurwyd y byddai'r ymchwiliad yn ystyried cyflawniad y cymalau canlynol o'r cynllun iaith:

Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

5.21 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth rydym yn ei ddarparu arlein ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth Cymraeg cyflawn h.y. tudalen lanio yn Gymraeg ar GOV.UK.

5.24 Mae Adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn:

“Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw Llys Ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”

Nid yw hyn yn rhoi'r hawl i gael gwrandawriad Cymraeg, ond mewn rhai sefyllfaoedd h.y. gwrandawriadau Llys Ynadon, gall achos barhau yn Gymraeg pan fo'r holl bartïon yn ddwyieithog. O ganlyniad i hyn, ni fyddwn yn cyfieithu tystiolaeth a roddir ar lafar yn y llys o'r Saesneg i'r Gymraeg oni bai y gellir dangos bod gan barti i'r achos ddiffyg dealltwriaeth o'r Saesneg.

Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Gwnsler nad yw'n siarad Cymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi'i cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws.

- 3.3 Nodwyd hefyd y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn breifat gan dîm Ymchwilio a Gorfodi'r Comisiynydd, ac y byddai'n dilyn y camau canlynol:
 1. Derbyngwybodaeth a thystiolaeth gan GLITEF erbyn 19/08/2022.
 2. Cynnal dadansoddiad pen desg o'r wybodaeth ac ystyried yr angen i gasglu gwybodaeth bellach, er enghraifft trwy gyfarfod gyda swyddogion GLITEF.
 3. Paratoi adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a rhoi cyfle i GLITEF wirio ei ffeithiau.
 4. Anfon copi o'r adroddiad terfynol at GLITEF a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.
 5. Cyhoeddi'r adroddiad terfynol.
- 3.4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cydymffurfiaeth GLITEF gyda chymalau penodol o'i gynllun iaith. Mae wedi'i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan

GLITEF mewn llythyr dyddiedig 26/08/2022 a gwybodaeth bellach a dderbyniwyd mewn gohebiaeth ar 26/01/2022 a 31/01/22. Mae copi o'r llythyr i'w ganfod yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

4 Y dystiolaeth

Ystriaeth 1: Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

Roedd amheuaeth nad oedd GLITEF wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

5.21 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth rydym yn ei ddarparu ar-lein ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth Gymraeg cyflawn h.y. tudalen lanio yn Gymraeg ar GOV.UK.

5.24 Mae Adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn: "Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Gymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw Llys Ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn."

Nid yw hyn yn rhoi'r hawl i gael gwrandawriad Gymraeg, ond mewn rhai sefyllfaoedd h.y. gwrandawriadau Llys Ynadon, gall achos barhau yn Gymraeg pan fo'r holl bartïon yn ddwyieithog. O ganlyniad i hyn, ni fyddwn yn cyfieithu tystiolaeth a roddir ar lafar yn y llys o'r Saesneg i'r Gymraeg oni bai y gellir dangos bod gan barti i'r achos ddiffyg dealltwriaeth o'r Saesneg.

Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Gwnsler nad yw'n siarad Gymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi'i cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws.

- 4.1 Er mwyn cydymffurfio gyda'r cymalau uchod fel yr ymddengys yn y cynllun iaith, mae angen i GLITEF sicrhau bod pob person sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achos cyfreithiol yn medru gwneud hynny, a bod ganddo ddarpariaeth sy'n hwyluso cyfieithu ar y pryd yn rhithiol.
- 4.2 Honnai'r Cyngor fod yn rhaid i'w swyddogion fod yn bresennol yn y llys yng Nghanolfan Cyfiawnder Caernarfon i roi eu tystiolaeth, ac mai nid dyna'r gofyniad ar gyfer y partïon nad oeddent am ddefnyddio'r Gymraeg. Gallai'r unigolion hynny gymryd rhan yn y gwrandawriad o bell yn rhithiol.
- 4.3 Barn y Cyngor yw bod cyfrannu at wrandawriad yn rhithiol, o leoliad o ddewis, yn cynnig elfen ychwanegol o hwylustod a chyfleustra nad yw ar gael i'r cyfranogwyr sy'n bresennol yn y llys.
- 4.4 Yn ôl ei dystiolaeth dyddiedig 26 Awst 2022, eglurodd GLITEF: "rhestrwyd y gwrandawriad ym mis Mehefin 2020 yn wreiddiol ond nid oedd modd mynd ymlaen a'i gynnal gan fod gwrandawriadau wyneb yn wyneb wedi'u hatal oherwydd y pandemig (Mawrth - Gorffennaf 2020). Yna cafodd y gwrandawriad ei restru rhwng y 4ydd a'r 7fed o Fai 2021, ond roedd rhaid rhoi'r gorau i'w gynnal ar y diwrnod cyntaf oherwydd problemau gyda CVP. Dywedodd iddo gael ei aildrefnu ar gyfer y 10fed -

14eg o Ionawr 2022, a'i statws presennol yw ei fod wedi'i wrando'n rhannol. Ym mis Ionawr 2022, roedd GLITEF wedi gosod cyfyngiadau ar y nifer o bobl a ganiateir mewn ystafell wrandawiadau ar yr un pryd oherwydd Covid ac o ganlyniad i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oherwydd nifer y bobl sy'n rhan o'r achos hwn (partïon, tystion, y cwmsel a'r panel o 3) nid oedd gan y Tribiwnlys unrhyw ddewis ond rhestru'r gwrandawriad fel gwrandawriad hybrid, gyda rhai pobl yn mynychu o bell". Ni ymhelaethwyd ar natur y problemau o safbwynt y CVP.

- 4.5 Nododd GLITEF iddo dderbyn ymholiad am rywun oedd yn mynychu'n bersonol ac yn pryderu mai'r unig reswm roedd yn rhaid i'r tystion fynychu yn bersonol oedd oherwydd eu bod yn rhoi tystiolaeth yn Gymraeg.
- 4.6 Dywedodd GLITEF bod penderfyniadau ynghylch fformat gwrandawriad a phwy sy'n mynychu yn cael eu gwneud gan farnwr. Dywedodd mai cyfarwyddyd y barnwr oedd bod rhaid i'r sawl oedd yn rhoi tystiolaeth yn y Gymraeg - a'r sawl oedd eisiau clywed y cyfieithiad Saesneg - fynychu yn bersonol. Roedd hyn o ganlyniad i'r problemau a brofwyd ar CVP gyda chyfieithu ar y pryd.
- 4.7 Nododd y Cyngor ei fod yn "amheus" o ddatganiad Uned Iaith Gymraeg GLITEF nad oes system ar gael sy'n hwyluso cyfieithu ar y pryd yn rhithiol, gan fod Zoom wedi profi'n effeithiol iddynt hwy.
- 4.8 Mewn gohebiaeth dyddiedig 26/01/2022, cyfeiriodd y GLITEF at bedwar modd gwahanol o gynnal gwrandawiadau llys/tribiwnlys, gan esbonio mai penderfyniad i bob barnwr unigol yw sut i gynnal ei achosion a pha ddarpariaeth sy'n fwyaf hwylus, gan barchu hawl unigolyn i siarad Cymraeg. Dyma'r pedwar modd gwahanol:
 - Cyfuniad o Teams a BTMeetMe gyda'r partïon i gyd ar Teams a'r cyfieithiad yn cael ei ddarparu dros y ffôn, h.y. mae'r cyfranwyr di-Gymraeg yn gorfod defnyddio ffôn symudol i wrando ar y cyfieithiad
 - Gwrandawriad ar CVP (Platfform Cwmwl Fideo)
 - Gwrandawriad hybrid sy'n cynnwys rhai partïon ar CVP a rhai yn y llys
 - Gwrandawriad wyneb yn wyneb gyda phawb yn y llys

5 Casgliadau

- 5.1 Daw'r adroddiad hwn i farn ynglŷn â chydymffurfiaeth GLITEF â'i gynllun iaith. Yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael, casglaf fod GLITEF wedi methu â chydymffurfio â chymalau 5.21 a 5.24 o'r cynllun iaith.

Casgliad 1: Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

Roedd amheuaeth nad oedd GLITEM wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

5.21 *Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth rydym yn ei ddarparu arlein ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth Cymraeg cyflawn h.y. tudalen lanio yn Cymraeg ar GOV.UK.*

5.24 *Mae Adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn: "Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw Llys Ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn."*

Nid yw hyn yn rhoi'r hawl i gael gwrandawriad Cymraeg, ond mewn rhai sefyllfaoedd h.y. gwrandawriadau Llys Ynadon, gall achos barhau yn Gymraeg pan fo'r holl bartïon yn ddwyieithog. O ganlyniad i hyn, ni fyddwn yn cyfieithu tystiolaeth a roddir ar lafar yn y llys o'r Saesneg i'r Gymraeg oni bai y gellir dangos bod gan barti i'r achos ddiffyg dealltwriaeth o'r Saesneg.

Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Gwnsler nad yw'n siarad Cymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi'i cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws.

- 5.2 Ystyriais mai'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF) sy'n gyfrifol am sicrhau'r hawliau yma i siaradwyr Cymraeg, ac mae cynllun iaith y gwasanaeth yn amlinellu sut maent yn gwneud hynny.
- 5.3 Mae'r gŵyn yn tarddu o sefyllfa lle mae person wedi methu â defnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad yn rhithiol, a bod yr unigolyn (neu unigolion) wedi teimlo ei fod o dan anfantais drwy orfod teithio i lys yn ystod pandemig i roi tystiolaeth oherwydd ei fod yn gwneud dewis pwrpasol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 5.4 Mae cymal 22 Rhan III Deddf 1993 yn nodi, 'mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r

cyfryw rybudd ymlaen llaw....a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn’.

- 5.5 Rwy’n ystyried bod “unrhyw achosion cyfreithiol” yn ymestyn i achosion sydd yn digwydd yn rhithiol, hybrid neu dros y ffôn, ac mae GLITEF yn cadarnhau ei fod o’r un farn. Ar ben hynny, credaf fod “unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol” yn ymestyn i sicrhau bod darpariaeth ddigonol i sicrhau bod modd cynnal achosion yn rhithiol ar lein.
- 5.6 Ystyriais nad yw’r cyfleuster cyfarfod rhithiol CVP a ddefnyddir gan y gwasanaeth llysoedd yn hwyluso cyfieithu ar y pryd, sy’n mynd yn groes i egwyddorion y cynllun iaith. Rwy’n bryderus ynglŷn â datganiad y Llys nad oes systemau sy’n hwyluso cyfieithu ar y pryd ar gael gan fod systemau fel Zoom wedi profi’n effeithiol i nifer o sefydliadau ers cyfnod cychwynol y pandemig.
- 5.7 Yn 4.8 uchod, rhestrir pedwar modd gwahanol o gynnal gwrandawiadau llys/tribiwnlys. Mae’r Llys yn cyfaddef nad yw opsiwn 2 ar gael yn Gymraeg o gwbl, ac ymddengys nad yw opsiwn 3 ar gael os gorfodir siaradwyr Cymraeg i fynychu’r Llys. Nid yw system 1 yn swnio’n ddelfrydol ac felly, ymddengys mai’r unig opsiwn sydd i’w weld yn ffafrio’r Gymraeg yw cynnal achos wyneb yn wyneb gyda phawb yn y Llys ar yr un pryd.
- 5.8 Yn yr achos hwn, effeithiodd y trefniadau ar ddefnyddwyr y Gymraeg, a theimlaf eu bod nhw wedi eu gosod o dan anfantais o gymharu â’r partïon nad oeddent am ddefnyddio’r Gymraeg. Ymddengys bod yr amgylchiadau’n ffafrio partïon sy’n gallu ymuno o bell ac felly osgoi’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r coronafeirws.
- 5.9 Ar wahân i gymal 22, mae’r rhan berthnasol isod o’r Cynllun Iaith angen sylw hefyd:
- 5.21 “Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth rydym yn ei ddarparu ar-lein ar gael yn Gymraeg...”*
- 5.10 Ystyriais i GLITEF nodi ei fod o’r farn bod 5.21 wedi ei ystyried allan o’i gyd-destun, a bod y frawddeg yn ymwneud â gwasanaethau digidol “e.e. cais am brofiant”, gan taw’r honiad oedd nad oedd gwrandawiadau fideo o bell yn weithredol pan gymeradwywyd y Cynllun yn 2019. Serch hynny, rwy’n anghytuno. Mae dehongliad y Comisiynydd yn ehangach na hynny ac yn cynnwys unrhyw wasanaeth digidol gan gynnwys cyfieithu ar y pryd.
- 5.11 Wrth wraidd cymal 22, mae’r egwyddor fod gan bawb hawl deg i ddefnyddio’r Gymraeg yn y Llysoedd. Ar un llaw, ystyriais fod rhan o gymal 22 wedi ei gwireddu, sef y rhoddwyd cynnig i unigolion siarad a defnyddio’r Gymraeg yn yr achos dan sylw. Fodd bynnag, y realiti yw, os oes rhwystrau a chostau ychwanegol ynghlwm wrth ddefnyddio’r Gymraeg, ac nad yw’r costau a’r rhwystrau yma yn perthyn i ddefnyddio’r Saesneg, nid yw cymal 22 wedi’i wireddu. Gweler geiriau Susan Acland-Hood yn rhagair y Cynllun Iaith 2018-2021:
- “Bydd ein rhaglen ddiwygio yn cyflwyno ffyrdd cwbl newydd o gael mynediad at gyfiawnder, gan ailwampio ein gwasanaethau fel eu bod yn gweithio’n well i’n holl ddefnyddwyr... Byddwn yn ymdrin â materion syml yn gyflym ar-lein; fe fydd y defnydd a wneir o gyswllt fideo yn y llysoedd yn cynyddu... Dylai siaradwyr Cymraeg ddisgwyl manteisio fel pawb arall ar y newidiadau unwaith mewn cenhedlaeth yr ydym yn ei wneud i’n gwasanaethau... Mae hyn yn rhoi platfform cryf iawn inni*

barhau i adeiladu ar y nod hwn i ddarparu gwasanaeth Cymraeg sy'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yr unfed ganrif ar hugain."

Ystyriais fod y Llys yn ceisio dweud nad oes modd gwneud hyn yn yr achos yma.

- 5.12 Wrth gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad drafft, nododd GLITEF bod Adran 5 y Ddeddf Iaith yn nodi mai pwrpas Cynllun Iaith Gymraeg yw *"gweithredu, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru"*. Dywedodd GLITEF iddo wneud popeth a oedd yn rhesymol ac ymarferol i geisio sicrhau ymarferoldeb cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfnod hwn.
- 5.13 Dyfynnaf o'r ddogfen ganllaw 'Cynlluniau iaith Gymraeg' sy'n nodi: *man cychwyn pob cynllun fydd yr egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf. Dylai sefydliadau sy'n paratoi cynllun weithio tuag at weithredu'r egwyddor honno yn llawn cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r cymalau amodol hyn yn berthnasol i gynlluniau a mesurau, ac nid i'r egwyddor sylfaenol ei hunan.*
- 5.14 Mae'r canllaw yn egluro bod y cwestiwn o ystyried a yw'r mesurau o fewn cynllun unrhyw sefydliad yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb *"cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol"* yn un sy'n ganolog i dasg y Comisiynydd wrth ystyried pob cynllun a gyflwynir i'w gymeradwyo. Mae'n rhaid ystyried hyn mewn ffordd wrthrychol bob tro. Dywed y canllaw *"Ni fydd yn dderbyniol i'r rheiny sy'n paratoi cynlluniau fabwysiadu safbwynt hynod oddrychol a chyfyngedig o'r hyn sy'n briodol o dan eu hamgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol"*.
- 5.15 Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. O ganlyniad, credaf fod safbwynt GLITEF yn anghywir, ac na ellir ail-ddehongli'r cymal o dan amgylchiadau'r pandemig. Os yw'r Comisiynydd yn dod i'r casgliad fod gweithgaredd penodol gan gorff yn cynrychioli methiant i gydymffurfio gyda chymal o fewn y cynllun iaith, nid yw'r ffaith fod Deddf 1993 (a'r cynllun iaith ei hun) yn nodi y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal *"cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol"* yn newid hynny.
- 5.16 Esboniodd GLITEF mai penderfyniad i bob barnwr unigol yw sut i gynnal ei achosion a pha ddarpariaeth sy'n fwyaf hwylus. Ymddengys i'r Arglwydd Brif Ustus roi cyfarwyddiadau i farnwyr gwaith troseddol a sifil y dylid, lle'n bosib, gynnal gwrandawiadau mewn llys gan taw hynny sydd orau i bawb. Yn seiliedig ar hyn, fe wnaeth Barnwr Cyswllt y Gymraeg ysgrifennu at bob barnwr troseddol a sifil yng Nghymru yn annog hynny; ond deallir nad yw'r un cyfarwyddyd wedi ei ddarparu i farnwyr y tribiwnlysoedd gan Lywydd y Tribiwnlysoedd.
- 5.17 Mae'n rhaid i'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg gael ei pharchu a'i gwireddu, beth bynnag fo safbwynt y Barnwr. Mae'r cynllun iaith yn ddogfen statudol ac ystyriaf fod angen nodi'n glir beth yw'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio. Ystyriaf fod angen i GLITEF ystyried ymhellach sut y gellir gweithredu'r ymrwymiad yn ymarferol.

- 5.18 Rwyf o'r farn nad yw'r sefyllfa'n deg ac y dylai'r Llys sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn rhan hanfodol o'i systemau gwrandawiaadau rhithiol. Ymddengys bod trefniant presennol y gwasanaeth Llysoedd yn arwain at driniaeth wahanol o unigolion yn seiliedig ar ddewis iaith, ac mae hyn yn peri pryder i mi. Rwy'n bryderus bod gan y sefyllfa bresennol oblygiadau mewn perthynas â hawl siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y llys yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chynllun iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.
- 5.19 Mae ymchwil diweddar gennyf yn dangos bod nifer o ddylanwadau ar benderfyniadau iaith defnyddwyr. Un enghraifft a gofnodwyd yw pryder y byddai ceisio defnyddio'r Gymraeg lle nad yw ar gael yn arwain at letchwithdod neu embaras, neu y byddai defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg yn golygu eu bod dan anfantais.
- 5.20 Dengys yr ymchwil, pan nad oedd y gwasanaeth Cymraeg yn amlwg neu os oedd unrhyw rwystr, oedi neu drafferth i'w gyflwyno, bod rhai o'r cyfranogwyr yn penderfynu defnyddio'r Saesneg yn hytrach na dyfalbarhau er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg. Felly, mae llai o bobl yn defnyddio'r Gymraeg pan fydd y gwasanaeth Cymraeg yn fwy o drafferth.
- 5.21 Yn rhinwedd fy mhrif nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg rwy'n tynnu sylw Gwasanaeth Llysoedd Ei Fawrhydi at ganfyddiadau ymchwil ynghylch hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg gan unigolion pan mewn cysylltiad a sefydliadau. (par 5.15 a 5.16). Maent yn gwbl ganolog i alluogi unigolion i arfer eu hawl ieithyddol mewn gwrandawiaadau llys.
- 5.22 Ystyriais fod y gŵyn yn codi materion pwysig o ran mynediad at yr hawliau sy'n deillio o gymal 22, yr effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd, a'r ffaith y gwnaiff rhai pobl ddewis yr opsiwn 'hawsaf'. Mae hwn yn fater sydd yn berthnasol ac amserol wrth i GLITEF ymgymryd â phrosiect i foderneiddio gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd, ac wrth i achosion ar-lein ddod yn fwyfwy safonol. Mae cyfle felly i feddwl yn fwy sylfaenol a phellgyrhaeddol ynghylch sut mae'r ddarpariaeth dechnegol yn cael ei chynllunio ar gyfer y dyfodol, wrth i sefydliadau symud i'r ochr electronig o weithio.
- 5.23 I gloi, carwn ychwanegu fy mod yn derbyn yr angen i'r system gyfiawnder barhau i weithredu yn ystod cyfnod y pandemig. Rwy'n derbyn bod GLITEF wedi ymdrechu drwy gydol y cyfnod i geisio hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwrandawiaadau llys ac wedi gosod camau mewn lle ar gyfer cyflawni hynny. Fodd bynnag, ar yr achlysur penodol hwn, fe fethodd y system, er yr ymdrech a roddwyd i geisio cynnig gwasanaeth yn Gymraeg, i alluogi'r unigolion hynny i roi eu tystiolaeth ar zoom, fel y rhai a ddymunai wneud hynny yn Saesneg.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod GLITEF wedi methu â chyflawni cymalau uchod yn ei gynllun iaith.

6 Argymhellion

- 6.1 Ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, rwyf o'r farn y dylai GLITEF weithredu'n unol â'r argymhellion canlynol a wneir dan adran 19 y Ddeddf:

Argymhelliad 1

Argymhellir bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn sicrhau, wrth foderneiddio gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd, bod y system newydd o'r enw 'Gwrandawiadau yn Gyfan Gwbl drwy Fideo' (Fully Video Hearings) yn galluogi cyfieithu ar y pryd yn rhithiol.

Argymhelliad 2

Argymhellir bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn rhoi system ar waith ar fyrder (hyd nes y daw'r system newydd 'Gwrandawiadau yn Gyfan Gwbl drwy Fideo' (Fully Video Hearings) i rym) sydd yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg roi tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru mewn ffordd sy'n gydnaws â'r partïon nad ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg.

Argymhelliad 3

Argymhellir bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn ail-edrych ar y ffordd y mae'n cyfathrebu gyda thystion / partïon o'r pwynt cyntaf y gwneir cyswllt hyd at y cyswllt olaf. Yn benodol, sut y maen nhw'n cynllunio ar gyfer achosion wrth gynnig neu wneud trefniadau cyfieithu.

Rwy'n cydnabod bod GLITEF wedi cwblhau'r argymhellion uchod, a darparwyd tystiolaeth i'r Comisiynydd.

7 Mynegai i'r atodiadauⁱ

Atodiad 1

Llythyr dyddiedig 26 Awst 2022 gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

ⁱ Atodir y ddogfennaeth yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno neu ei chyhoeddi.